# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

## Cofnodion (SC(3)-04-09)

**Dyddiad: 26 Chwefror 2009**
**Amser: 13:05 – 15:15 pm**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Mick Bates (Cadeirydd), Sir Drefaldwyn
Alun Davies, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Lesley Griffiths, Wrecsam
Darren Millar, Gorllewin Clwyd
Brynle Williams, Gogledd Cymru
Rhodri Glyn Thomas, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr
Leanne Wood, Canol De Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Virginia Hawkins, Clerc
Meriel Singleton, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

Stephen Atkins, Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru
Nick O'Sullivan, Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru
Phil Coates, Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru
Elin Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig
Sean Bradley, Llywodraeth Cynulliad Cymru
Stuart Evans, Llywodraeth Cynulliad Cymru
Huw Brodie, Llywodraeth Cynulliad Cymru
Jon Westlake, Llywodraeth Cynulliad Cymru

### Eitem 1 : Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Lorraine Barrett a Karen Sinclair.

### Eitem 2 : Ymchwiliad i oblygiadau'r Mesur Morol i Gymru

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Stephen Atkins, Nick O'Sullivan a Phil Coates i'r cyfarfod a gwahoddwyd hwy i roi sylwadau agoriadol ar oblygiadau'r Mesur Morol i Gymru. Bu'r Aelodau'n holi'r tystion.

### Eitem 3 : Ymchwiliad i oblygiadau'r Mesur Morol i Gymru

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Elin Jones a'i swyddogion i'r cyfarfod a gwahoddwyd hwy i roi sylwadau agoriadol ar oblygiadau'r Mesur Morol i Gymru. Bu'r Aelodau'n holi'r tystion.

3.2 Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at y Gweinidog ynghylch sefyllfa'r Llywodraeth o ran ceisio Cymhwysedd Deddfwriaethol yn y meysydd lle mae swyddogaethau wedi'u datganoli i Weinidogion Cymru.

3.3 Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog ddarparu rhagor o wybodaeth am amcanestyniadau o gost mynd â'r pwyllgorau pysgodfeydd môr i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

### Eitem 4 : Ymchwiliad i leihau allyriadau carbon yng Nghymru: Sesiwn graffu ar y defnydd o dir

4.1 Croesawodd y Cadeirydd Elin Jones a'i swyddogion i'r cyfarfod a gwahoddwyd y Gweinidog i roi sylwadau agoriadol ar Leihau Allyriadau Carbon trwy'r defnydd o dir. Bu'r Aelodau'n holi'r Gweinidog.